Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

2024-28

# Rhagair yr IG

**Mae'r cynllun hwn yn cynnwys gwybodaeth bwysig am y gwaith mae PCYDDS yn ei wneud i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.**

Fel Is-Ganghellor newydd PCYDDS, rwy'n arbennig o falch o'n gwaith i hyrwyddo cydraddoldeb a mynediad at addysg. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn wedi'i wreiddio yn ein cenhadaeth i Drawsnewid Addysg a Thrawsnewid Bywydau ac mae'n adlewyrchu gwerthoedd y Brifysgol. Yn rhan o'r cynllun hwn, rydym yn ymrwymo i fod yn brifysgol sy'n deall ei chymuned o staff a myfyrwyr ac yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth hon yn ein gwerthoedd, ein diwylliant a'n gweithgareddau.

At hynny rydym wedi ymrwymo i amgylchedd gwaith a chymuned ddysgu lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel a'i fod yn cael ei werthfawrogi, ac yn cael cyfle i gyflawni'i botensial. Rwy'n credu bod addysg yn elwa drwy amrywiaeth ac amgylchedd lle gall pobl ddod at ei gilydd o bob cefndir i geisio gwybodaeth, dysgu oddi wrth ei gilydd, a datblygu mewn ffordd sydd o fudd i'r rhanbarthau lle rydym wedi ein lleoli.

Hoffwn ddiolch i'n staff, dysgwyr a myfyrwyr am eu mewnbwn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn ac i bartneriaid allanol am eu cyfarwyddyd a'u cymorth.


**Yr Athro Elwen Evans, CB**
**Is-Ganghellor**

# Gweledigaeth, Cenhadaeth a Diben

Rydym wedi ymrwymo i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth, i adeiladu cymunedau cryf ar bob safle, ac i greu amgylchedd dysgu a gweithio cynhwysol a chefnogol lle gall yr holl staff, myfyrwyr a dysgwyr ffynnu a chyflawni eu potensial personol. Rydym yn gweithio'n ddiwyd ar ddileu rhwystrau i gyfranogi, gan werthfawrogi gwahaniaethau, dathlu amrywiaeth a chefnogi pobl o bob cefndir ac amgylchiad i gyflawni eu potensial.

Ein gweledigaeth ni yw bod yn Brifysgol i Gymru, gydag ymrwymiad i lesiant a threftadaeth y genedl wrth galon popeth a wnawn. Wrth wraidd ein gweledigaeth y mae hyrwyddo ac ymgorffori system addysg sector deuol sy'n addysgu dysgwyr o bob oed a chefndir, ac yn symbylu datblygiad economaidd yn ein rhanbarth ni, ledled Cymru a thu hwnt.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi'i ddatblygu er mwyn i ni allu nodi sut rydym yn bwriadu bodloni ein hymrwymiad i gydraddoldeb a sut byddwn yn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol a gynhwysir o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010. O fewn Deddf Cydraddoldeb 2010, mae gan gyrff cyhoeddus gyfrifoldeb ychwanegol i gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.



## Amdanom Ni

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) yn rhan o Grŵp PCYDDS (y Grŵp ), conffederasiwn o nifer o sefydliadau sy'n cynnwys Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn golegau cyfansoddol. Mae gan y Brifysgol gampysau yn Birmingham, Caerfyrddin, Caerdydd, Llanbedr Pont Steffan, Llundain ac Abertawe, ac mae gan bob un ei hunaniaeth ei hun sy'n ein galluogi i gyflawni ein ffocws strategol ar gyflogadwyedd ac ehangu cyfranogiad. Mae pob campws yn cynnig gwahanol fath o brofiad myfyriwr ond mae ganddynt oll awyrgylch cymunedol, cyfeillgar.

Cenhadaeth y Brifysgol yw trawsnewid addysg ac felly trawsnewid bywydau'r unigolion a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

## Datblygu Ein **Hamcanion Cydraddoldeb**

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn cyd-fynd â'n Cynllun Strategol sefydliadol, ein Cynlluniau Ffioedd a Mynediad a strategaethau allweddol megis y Strategaeth Iechyd a Llesiant Myfyrwyr. Mae hefyd yn ymgorffori darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llawn ac yn ceisio sicrhau ein bod yn gwella cydraddoldeb ac amrywiaeth yn barhaus ac yn cyfoethogi dulliau cynhwysol o fewn ein sefydliad ac mewn partneriaeth ag eraill.

Er mwyn gosod ein hamcanion rydym wedi adfyfyrio ar ddeilliannau ac effaith Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 ac ar y data diweddaraf sydd ar gael drwy ein Hadroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol, ochr yn ochr ag adroddiadau allweddol o'r sector, yn ogystal â dadansoddi data staff a myfyrwyr yn dilyn arolygon ymgysylltu megis arolygon pwls rheolaidd.

Seilir yr holl prif amcanion ar ffocws ar ansawdd data er mwyn sicrhau bod data cadarn a chywir ar gael er mwyn defnyddio dull seiliedig ar dystiolaeth wrth osod blaenoriaethau ac er mwyn dangos effaith ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a chydymffurfio â'n dyletswyddau Cydraddoldeb. Byddwn hefyd yn sicrhau bod data caffael ar gael a byddwn yn rhoi tystiolaeth o amrywiaeth caffael.

Caiff yr holl prif amcanion eu cefnogi gan gynllun gweithredu gweithrediadol canolog, a fydd yn cynnwys deilliannau tymor byr a thymor canolig ac uchelgeisiau mwy hirdymor. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â staff a myfyrwyr yng nghyswllt gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd.

## Y Cyd-destun Cyfreithiol

O fewn Deddf Cydraddoldeb 2010, mae gan gyrff cyhoeddus gyfrifoldeb ychwanegol i gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

**Y Ddyletswydd Gyffredinol:**
Wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau rhaid i ni roi sylw dyledus i'r canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall y mae'r Ddeddf yn ei wahardd;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt;
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.

Wrth feddwl am sut i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt, mae hefyd angen i ni:

- Ddileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno;
- Bodloni anghenion pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol sy'n wahanol i anghenion unigolion nad ydynt;
- Annog pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu unrhyw weithgaredd arall lle mae cyfranogiad gan bobl o'r fath yn anghymesur o isel. Hefyd rhaid i ni feddwl yn benodol am sut byddwn yn mynd i'r afael â rhagfarn ac yn hyrwyddo dealltwriaeth.

## Y Dyletswyddau Penodol:

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn darparu pŵer i wneud rheoliadau sy'n gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus i gefnogi cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn well; enw'r rhain yw Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol y Sector Cyhoeddus ac maent yn wahanol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r Dyletswyddau Penodol yn tanategu'r Ddyletswydd Gyffredinol ac maent wedi'u datblygu o gwmpas pedair prif egwyddor:

1. **Defnyddio tystiolaeth**
2. **Ymgynghori a Chynnwys**
3. **Tryloywder**
4. **Arweinyddiaeth**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru reoliadau a gyflwynodd y Dyletswyddau Penodol i Gymru ym mis Mawrth 2011. Mae'r rhain yn nodi'r camau y mae'n rhaid i PCYDDS eu cymryd er mwyn cydymffurfio ac yn cynnwys y meysydd canlynol:

- Gosod Amcanion Cydraddoldeb a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol;
- Sicrhau ymgysylltu â phobl sydd â diddordeb yn y modd y mae penderfyniadau PCYDDS yn effeithio arnynt;
- Casglu a chyhoeddi gwybodaeth sy'n berthnasol i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol;
- Cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a chyhoeddi'r canlyniadau os oes effaith sylweddol;
- Cyhoeddi gwybodaeth ynghylch monitro cyflogaeth yn flynyddol;
- Hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Ddyletswydd Gyffredinol ymhlith gweithwyr a defnyddio gweithdrefnau i asesu perfformiad er mwyn dynodi a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi gweithwyr mewn cysylltiad â'r Ddyletswydd Gyffredinol;
- Gosod amcan ynghylch cydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau pan gaiff gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau ei ddynodi;
- Meddwl am gynnwys amodau'n berthnasol i'r Ddyletswydd Gyffredinol ym mhrosesau caffael.

# Prif Gyflawniadau 2020-24

- **Creu'r Uned Lesiant:** Gweithredwyd strwythurau newydd yn cynnwys creu'r Uned Lesiant. Cynyddwyd adnoddau yn y ddarpariaeth lesiant i fyfyrwyr. Ehangwyd yr ymwneud â gwasanaethau statudol lleol, sirol a chenedlaethol.
- **Cymorth Covid:** Cefnogwyd staff a myfyrwyr drwy'r pandemig, yn cynnwys gwiriadau llesiant i'r rheini a roddodd wybod am brofion positif.
- **Datgelu trawma:** Datblygwyd a chyflwynwyd polisi a phrosesau Achos Pryder newydd i wella llwybrau adrodd a chymorth i fyfyrwyr sydd wedi datgelu trawma.
- **Ymgyrch Urddas Mislif:** Yn cynnwys darparu cynnyrch i'r mislif yn rhad ac am ddim, trafodaethau â rhwydweithiau menywod a grwpiau cymunedol i fynd i'r afael â thlodi mislif. Darparu cynnyrch amldro i'r mislif yn rhad ac am ddim ar gyfer myfyrwyr sydd wedi profi caledi, gan wella cynaliadwyedd a chymorth.
- **Cymorth Iechyd Meddwl:** Gwell darpariaeth o ran cymorth iechyd meddwl â mynediad agored 24/7 i fyfyrwyr a staff
- **Prosiect Cysylltu:** Cyflwynwyd hyfforddiant a chymorth i fyfyrwyr/staff i feithrin cymuned a gwella iechyd meddwl. Roedd gweithgarwch ychwanegol yn cynnwys rhannu gwybodaeth, digwyddiadau a gweithgareddau ar themâu llesiant mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol.
- **Hyfforddiant Herio Rhagfarn Ddiarwybod:** Darparwyd hyfforddiant ar gyfer staff i leihau anghydraddoldebau a hyrwyddo dealltwriaeth.
- **Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil:** Mewn ymgynghoriad â staff a myfyrwyr datblygwyd Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil 2021-2024 sydd wedi'i weithredu a'i fonitro.
- **Siarter Cydraddoldeb Hil:** Ymrwymwyd i Egwyddorion y Siarter Cydraddoldeb Hil ac yn gweithio tuag at y lefel efydd.
- **Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd:** Fe'n hachredwyd yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd yn rhan o gynllun y llywodraeth
- **Rhaglen Cymhwysedd Diwylliannol:** Cyflwynwyd rhaglen arweinyddiaeth dosturiol yn elfen sylfaenol o raglen cymhwysedd diwylliannol yn y dyfodol ar gyfer uwch arweinwyr.
- **Ymgynghori â'r Staff:** Cynhaliwyd nifer o arolygon pwls i'r staff er mwyn clywed eu barn
- **Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau:** Lleihad yn y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau o 9.7% ar 31 Mawrth 2019 i 7% ar 31 Mawrth 2023.
- **Hwb Llesiant Staff:** Crëwyd hwb llesiant staff newydd gyda mwy o adnoddau i staff a rheolwyr llinell
- **Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth:** Rydym wedi cefnogi 46 menyw drwy Raglen Aurora, wedi cefnogi pedwar o bobl ar gydweithrediad newydd mewn partneriaeth â'r Rhaglen Amrywio Arweinyddiaeth gan AU Ymlaen ac wedi cefnogi 17 menyw drwy'r Rhaglen Springboard.
- **Cynllun Prentisiaeth Ddigidol:** Lansiwyd cynllun newydd i ddatblygu ffrwd newydd o dalent i'r dyfodol.
- **Buddsoddiadau mewn systemau AD:** Gwelliannau o ran dadansoddeg pobl ac adroddiadau.

# Cynllun Cadarn a Gwybodus

Er mwyn dynodi ein Hamcanion Cydraddoldeb, ymgymerom ag ymarfer ymgysylltu cynhwysfawr ar draws y Grŵp. Roedd hwn yn cynnwys arolwg rhanbarthol mewn cydweithrediad â rhwydwaith Cydraddoldeb Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ogystal ag arolwg ar-lein i staff, dysgwyr, myfyrwyr a rhanddeiliaid allanol allweddol (e.e. ein Hundebau Llafur a chyrff allanol allweddol ar gyfer nodweddion gwarchodedig penodol). At hynny, cynhaliwyd cyfarfodydd wyneb yn wyneb â grwpiau rhanddeiliaid mewnol allweddol.

Bu'r gweithgareddau ymgysylltu hyn yn gymorth i ni ddeall anghenion ein cymunedau dysgu a'n gweithlu ac yn gymorth i ni lunio'r Amcanion Cydraddoldeb a'r cynllun gweithredu.

Rydym wedi edrych ar Gynlluniau Gweithredu CCAUC a Llywodraeth Cymru ac wedi adolygu'r cynnydd rydym wedi'i wneud eisoes mewn cysylltiad â Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Rydym hefyd wedi adolygu ffynonellau cenedlaethol ac allanol megis adroddiadau gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, polisi a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, adroddiadau ymchwil UUK ac AU Ymlaen ac ystadegau ac adroddiadau perthnasol eraill.

- Adroddiadau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cynnwys A yw Cymru'n Decach? ac Adroddiad Monitor Prydain Fawr 2023
- Adroddiadau UUK yn cynnwys 'Tackling racial harassment in higher education (2020)' a Changing the Culture.
- Ysgogwyr deddfwriaethol megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010
- Adroddiadau a Strategaethau Llywodraeth Cymru yn cynnwys Cynlluniau Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a LHDTC+ Cymru
- Adroddiadau a chylchlythyron CCAUC ac AU Ymlaen
- Strategaethau Mewnol

Mae'r Brifysgol yn gwneud ymrwymiad i'w dysgwyr ac yn benodol i Gymru, ei diwylliant, ei threftadaeth a'i hiaith drwy'i gwerthoedd a'i chymeriad unigryw.

Mae Strategaeth y Gymraeg yn cefnogi'r ymrwymiad hwn, a, thrwy waith Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, yr Athrofeydd a'r Gwasanaethau Proffesiynol, bydd yn cefnogi ac yn diogelu statws yr iaith yn ddull astudio a chyfathrebu o fewn y Brifysgol.

# Prosesau Cyflawni a Monitro

**Cyflawnir y camau gweithredu o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol drwy gynllun gweithredu gweithrediadol canolog.**

Mae'r Cynllun Gweithredu Gweithrediadol canolog yn nodi'r prif flaenoriaethau i'w cyflawni dros y 4 blynedd nesaf gyda cherrig milltir allweddol wedi'u gosod ar gyfer pob targed a chaiff y gwaith ei ymgorffori a'i fonitro o fewn Proses Gynllunio Flynyddol newydd y Brifysgol. Cynhelir adolygiad o gynnydd blynyddol mewn cysylltiad â'r cynllun gweithredu gweithrediadol canolog ac adroddir arno i'r Senedd a'r Cyngor.

# Adolygu Cynnydd

**Caiff cynnydd ei fonitro o fewn y Broses Gynllunio Flynyddol newydd i werthuso effeithiolrwydd ein dull ar gyfer cyflawni ein hamcanion.**

Mae'r adolygiad o'r broses gynllunio flynyddol yn galluogi'r Senedd a'r Cyngor i fonitro a chraffu ar gynnydd blaenoriaethau a chamau gweithredu'r Brifysgol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Diben cyhoeddi'r Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol yw bodloni dyletswyddau a rhwymedigaethau cyfreithiol y Brifysgol i adrodd ar ei chynnydd o ran cyflawni'r Ddyletswydd Gyffredinol a'r Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol sy'n cynnwys ei chynnydd o ran cyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb. Byddwn yn defnyddio deilliannau adolygu'r broses gynllunio flynyddol i adolygu ein blaenoriaethau a'n camau gweithredu a gynlluniwyd a'u haddasu os bydd angen.

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28

Mae **Cynllun Cydraddoldeb Strategol PCYDDS 2024-28** wedi'i strwythuro o gwmpas tri phrif faes: Dealltwriaeth, Perthyn, a Deilliannau. Mae pob maes yn cael ei ysgogi gan un nod creiddiol, wedi'i ategu gan gyfres o amcanion sy'n anelu at wireddu'r nod hwnnw. Mae'r amcanion hyn wedi'u diffinio ymhellach gan fraslun cryno o gamau a gynlluniwyd, sy'n manylu ar y dull strategol tuag at eu cyflawni.

Cyflawnir y gweithredoedd gweithrediadol sy'n gysylltiedig â'r camau hyn drwy gynllun gweithredu gweithrediadol canolog. Mae'r fframwaith hwn yn sicrhau dull cynhwysfawr a systematig o ran meithrin cydraddoldeb, sy'n cwmpasu ystod o fesurau sy'n gweithio tuag at gynnydd diriaethol a chynaliadwy yn y fenter hollbwysig hon.

| Maes | Amcan | Camau | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dealltwriaeth**<br><br>Bod yn brifysgol sy'n deall ein staff a'n myfyrwyr ac yn adlewyrchu hyn yn ein gwerthoedd, ein diwylliant, a'n gweithgareddau. | Sicrhau bod y Brifysgol **yn deall ac yn ymateb** i brofiad ein myfyrwyr. | Datblygu diwylliant o wneud penderfyniadau yn seiliedig ar ddata | Ymgorffori dealltwriaeth o brofiad ein myfyrwyr ar draws y Brifysgol | Cyfleu ein gweithredoedd mewn modd tryloyw ac ystyrlon |
| | Sicrhau bod ein **myfyrwyr yn gwybod ac yn deall eu hawliau** a bod y rhain yn cael eu **hadlewyrchu yn ein harfer a'n polisi.** | Datblygu cyfathrebu hygyrch ac effeithiol ynghylch hawliau a chyfrifoldebau myfyrwyr | Ymgorffori hawliau a chyfrifoldebau myfyrwyr yn ein diwylliant, ein harfer a'n polisi | Creu cyfleoedd i adolygu ein polisi ac arfer ac ymgynghori yn eu cylch yn rheolaidd |
| | Sicrhau bod y Brifysgol yn parhau i gael **gwybodaeth a dealltwriaeth ehangach** o'r **prif faterion** sy'n wynebu pobl â nodweddion gwarchodedig amrywiol ar draws pob un o'n campysau. | Ymgysylltu â'n pobl yn barhaus er mwyn rhoi cyfle iddynt roi adborth ar themâu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth allweddol a fydd yn galluogi'r Brifysgol i gael gwell dealltwriaeth o unrhyw rwystrau sy'n atal staff rhag cyrraedd eu potensial llawn. | Cynnal dadansoddi pellach o ddata proffil ein gweithlu yn ôl nodweddion gwarchodedig yn cynnwys effaith croestoriadedd a datblygu ein dealltwriaeth, gan feincnodi yn ôl tueddiadau a nodir o fewn adroddiadau perthnasol i greu gweithredoedd penodol a mesuradwy. | Adolygu a gwella'r hinsawdd, y systemau a'r prosesau a ddefnyddir i gofnodi data proffil y gweithlu er mwyn sicrhau dull cyson ac effeithiol. |
| **Perthyn**<br><br>Bod yn brifysgol ag amgylchedd dysgu a gweithio cynhwysol lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi i gyflawni eu potensial llawn. | Sicrhau bod ein holl fyfyrwyr yn gallu **cymryd rhan lawn** ym mywyd y brifysgol **yn ddiogel**. | Cefnogi myfyrwyr i fyw ac astudio heb aflonyddu a gwahaniaethu | Datblygu polisïau, gweithdrefnau ac arfer cynhwysol ymhellach | Meithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb cydweithredol am lesiant ein cymuned |
| | Sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn teimlo eu bod yn **perthyn**, bod eu profiadau'n cael eu **gwerthfawrogi**, a bod eu lleisiau'n cael eu clywed ac yn helpu i lunio eu haddysg. | Cefnogi diwylliant o gydweithredu a chyd-greu | Dathlu cefndiroedd, diwylliannau a chenedligrwydd gwahanol | Galluogi myfyrwyr i'w gweld eu hun yn cael eu hadlewyrchu yn y Brifysgol |
| | Sicrhau bod ein **diwylliant o arwain** yn ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar bob lefel ar draws y Brifysgol a bod ein harweinwyr yn fodelau rôl ar gyfer **arfer effeithiol a theg**, gan gefnogi ac arfogi rheolwyr pobl i **adeiladu timau cynhwysol**. | Cefnogi'r corff llywodraethu gyda datblygiad parhaus strwythurau llywodraethu priodol mewn cysylltiad â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cynnwys rhoi cyngor ynghylch ymyriadau effeithiol er mwyn cynyddu amrywiaeth ein corff llywodraethu ac uwch benodiadau. | Datblygu ymyriadau effeithiol i'r uwch arweinwyr a rheolwyr pobl mewn cysylltiad â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth er mwyn eu galluogi i adeiladu ac arwain timau cynhwysol. | Adolygu'n barhaus effeithiolrwydd polisïau ac arferion mewn cysylltiad â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth, gan ystyried canfyddiadau ac argymhellion pob adroddiad perthnasol gan y sector a'r llywodraeth, Strategaethau Cenedlaethol a rheoliadau newydd. |
| **Deilliannau**<br><br>Bod yn brifysgol gynhwysol sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal er mwyn cyflawni gwell deilliannau o ran cydraddoldeb. | Sicrhau y caiff pawb sydd â'r gallu a'r diddordeb ei **annog i ystyried Addysg Uwch** ac i wneud cais i'n rhaglenni academaidd a chael mynediad iddynt. | Codi dyheadau a gwella mynediad i AU | Cefnogi symud yn llwyddiannus i AU ac i lefelau astudio uwch | Darparu gweithgarwch croeso a chynefino cynhwysol |
| | Sicrhau ein bod yn darparu **mynediad teg** i addysg a gwasanaethau cymorth o ansawdd uchel ar gyfer ein myfyrwyr i gyd. | Darparu arlwy cydlynol ac integredig ar gyfer myfyrwyr | Ymgorffori egwyddorion Dylunio Cyffredinol o fewn proses darparu profiad ein myfyrwyr | Darparu cyfleusterau ac adnoddau cynhwysol |
| | Sicrhau y caiff yr holl fyfyrwyr eu **cefnogi i lwyddo a chyflawni** eu potensial yn seiliedig ar eu hymdrech a'u gallu. | Darparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n cefnogi llesiant myfyrwyr | Datblygu ymhellach gwricwlwm sy'n deall ein carfan o fyfyrwyr a'u hanghenion | Mynd ati'n rhagweithiol i ddynodi a goresgyn rhwystrau i lwyddiant myfyrwyr |
| | Sicrhau ein bod yn edrych ar **brofiad ein gweithwyr** drwy **lens cydraddoldeb**, yn enwedig mewn cysylltiad â **recriwtio, tâl, datblygiad a chynnydd.** | Byddwn yn dynodi ac yn ceisio dileu unrhyw rwystrau a all fodoli yn ein harferion i ddenu, cadw a datblygu staff er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial llawn.<br><br>Byddwn yn parhau i adolygu a cheisio gwella ein fframwaith Asesu Effaith ar Gydraddoldeb, gan fonitro deilliannau a thueddiadau er mwyn nodi gweithredoedd priodol. | Wedi ymrwymo i Egwyddorion y Siarter Cydraddoldeb Hil, byddwn yn parhau i weithredu er mwyn cyrraedd lefel Efydd y Siarter Cydraddoldeb Hil.<br><br>Byddwn yn dadansoddi ac yn cyhoeddi'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac yn ymestyn hyn i ethnigrwydd ac anabledd ac yn mynd i'r afael ag achosion unrhyw wahaniaeth o ran cyflog drwy gynllun gweithredu a gyhoeddir fel y bo'n berthnasol o fewn oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, yn ogystal â chynnal Archwiliadau Cyflog Cyfartal ar gyfnodau rheolaidd. | Byddwn yn ceisio mynd i'r afael ag unrhyw anghydbwysedd a nodir ym mhroffil ein gweithlu drwy greu llwybrau gyrfa ac yn ystyried llwybrau dilyniant i staff sydd ar gam cynnar yn eu gyrfa. |